OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 1264

## Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

## RHAN 2

### Eithriadau

**Gwasanaethau cartrefi gofal**

**2.**—(1) Nid yw'r pethau a ganlyn i gael eu trin fel gwasanaeth cartref gofal, er gwaethaf paragraff 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf (gwasanaethau rheoleiddiedig: diffiniadau, gwasanaethau cartrefi gofal)—

(a) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â nyrsio neu ofal, i oedolyn—

(i) mewn perthynas deuluol neu bersonol, a

(ii) ar gyfer dim ystyriaeth fasnachol;

(b) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â nyrsio neu ofal, i oedolion am gyfnod o lai nag 28 o ddiwrnodau mewn unrhyw gyfnod o 12 mis neu am nifer o gyfnodau sy'n gyfanswm o lai nag 28 o ddiwrnodau mewn unrhyw gyfnod o 12 mis;

(c) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â nyrsio, pan fo'r llety wedi ei freinio—

(i) yng Ngweinidogion Cymru at ddibenion eu swyddogaethau o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

(ii) mewn ymddiriedolaeth GIG;

(iii) mewn Bwrdd Iechyd Lleol.

(d) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â gofal, pan fo'r llety wedi ei ddarparu—

(i) gan sefydliad o fewn y sector addysg bellach; neu

(ii) gan brifysgol.

Ond nid yw'r eithriad hwn yn gymwys os yw nifer y personau y darperir y llety hwnnw iddynt yn fwy na degfed ran o nifer y myfyrwyr y mae'n darparu addysg a llety iddynt.

At ddibenion y paragraff hwn, mae i "sector addysg bellach" yr un ystyr â "further education sector" yn adran 91(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**);

(e) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â gofal, pan fo'r llety a ddarperir yn gyfystyr â gofal dydd i blant, o fewn ystyr adran 19(3) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**2**).

Ond nid yw'r eithriad hwn yn gymwys os—

(i) mewn unrhyw gyfnod o 12 mis, oes 28 neu ragor o gyfnodau o 24 awr y darperir mwy na 15 awr o ofal dydd ynddynt mewn perthynas ag unrhyw un plentyn (pa un a yw'r plentyn o dan 12 oed ai peidio);

(ii) yw'r llety wedi ei ddarparu i blentyn anabl.

(**1**) 1992 p. 13.
(**2**) 2010 mccc 1.

(f) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â gofal, pan fo'r llety wedi ei ddarparu i blant 16 oed a throsodd a dim ond at ddibenion galluogi'r plant i ymgymryd â hyfforddiant neu brentisiaeth.

Ond nid yw'r eithriad hwn yn gymwys os yw'r llety wedi ei ddarparu i blentyn anabl;

(g) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â gofal, pan fo'r llety wedi ei ddarparu i blant mewn hostel fechnïaeth a gymeradwyir neu hostel brawf a gymeradwyir;

(h) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â gofal, pan fo'r llety yn sefydliad i droseddwyr ifanc a ddarperir o dan neu yn rhinwedd adran 43(1) o Ddeddf Carchardai 1952(**3**);

(i) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â gofal, pan fo'r llety wedi ei ddarparu i blant oherwydd eu hyglwyfedd neu eu hangen at ddibenion—

(i) gwyliau;

(ii) gweithgaredd hamdden, adloniant, chwaraeon, diwylliannol neu addysgol;

Ond nid yw'r eithriad hwn yn gymwys—

(i) mewn unrhyw achos pan fo'r llety wedi ei ddarparu i blentyn anabl;

(ii) os yw'r llety wedi ei ddarparu i unrhyw un plentyn am fwy nag 28 o ddiwrnodau mewn unrhyw gyfnod o 12 mis, os nad yw'r llety ond wedi ei ddarparu i blant dros 16 oed.

(2) At ddibenion paragraff (1)(e), (f) ac (i) o'r rheoliad hwn, mae plentyn yn "anabl" os oes gan y plentyn anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010.

(3) Gweler rheoliad 5 am ystyr perthynas deuluol neu bersonol.

(**3**) 1952 p. 52.